

Rheoli gwrteithiau fferm o ran diogelwch bwyd

Canllawiau ar gyfer pobl sy'n tyfu cnydau parod i'w bwyta. Mae'r canllawiau hyn yn esbonio sut i reoli gwrteithiau fferm trwy ddatblygu cynlluniau diogelwch a fydd yn lleihau'r perygl bod cnydau parod i'w bwyta yn cael eu halogi'n ficrobiolegol

Gall gwrteithiau fferm, a roddir ar dir amaethyddol i fodloni gofynion maeth cnydau ac i wella ffrwythlondeb, gynnwys micro-organebau pathogenaidd sy'n gyfrifol am achosi salwch a gludir gan fwyd.

Mae'r micro-organebau hyn yn cynnwys

- e. coli O157
- [salmonela](#)
- [listeria](#)
- [campylobacter](#)

Felly, wrth storio a defnyddio gwrteithiau fferm, mae'n rhaid eu rheoli er mwyn lleihau'r perygl o halogi cnydau. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer llysiâu a ffrwythau parod i'w bwyta a fydd yn cael eu bwyta'n amrwd.

Nod y [canllawiau](#) hyn yw rhoi cyngor ymarferol i dyfwr y Deyrnas Unedig ar sut i leihau peryglon halogi cnydau parod i'w bwyta wrth ddefnyddio gwrteithiau fferm i wella ffrwythlondeb pridd.

Yn gryno, dyma brif agweddau'r [canllawiau](#):

- y dewis o dir lle caiff cnydau parod i'w bwyta eu tyfu
- rheoli gwrteithiau a biswail (slurries) cyn eu rhoi ar y tir
- amseru wrth roi'r gwrtaith ar y tir (gan gynnwys gwrtaith ffres o anifeiliaid yn pori) a biswail, wrth gynhyrchu cnydau parod i'w bwyta
- atal cnydau sy'n tyfu rhag cael eu halogi, a lleihau'r peryglon wrth eu cynaeafu

Cynhyrchwyd y canllawiau gan gr?p llywio, a gadeiriwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

Roedd yn cynnwys cynrychiolwyr ar ran:

- [ADAS](#)
- [Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig \(Defra\)](#)
- [Asiantaeth yr Amgylchedd](#) (sydd bellach yn rhan o [Gyfoeth Naturiol Cymru](#) yng Nghymru)
- [Adran yr Amgylchedd a Materion Gwledig Gweithrediaeth yr Alban](#)
- [Prif randdeiliaid y diwydiant](#)

Mae'r [canllawiau](#) hyn yn darparu cyngor ar arfer da i helpu tyfwr yn y Deyrnas Unedig i ddatblygu cynlluniau diogelwch. Mae'n ystyried ymchwil a ariannwyd gan yr ASB ar bresenoldeb pathogenau mewn gwrteithiau fferm yn y Deyrnas Unedig, a'u dirywiad wrth eu storio, wrth roi'r gwrtaith ar y tir ac wrth i anifeiliaid ysgarthu ar y tir. Mae'n cyd-fynd â chanllawiau sefydledig gan adrannau amaethyddol ar Arferion Amaethyddol Da.

Nid yw'r [canllawiau](#) hyn yn pennu gofynion gorfodol penodol, ond gallwch eu dilyn ar sail wirfoddol. Mae'r Asiantaeth yn ymwybodol bod nifer o dyfwyr yn y Deyrnas Unedig eisoes yn rheoli gwrteithiau fferm mewn modd sy'n gyson â'r canllawiau hyn, ac mae rhai yn gweithredu manylebau masnachol sy'n rhagori ar y cyngor a ddarperir.

[View Canllawiau ar gyfer tyfwyr i leihau'r risgiau o halogiad microbiolegol ar gnydau parod i'w bwyta as PDF](#) (423.1 KB)